Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl347

**Amseru: Unigol**

**Teitl: DPP2412 Oedolyn Priodol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Arweiniodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent ar ran Comisiynwyr Heddlu a Throseddu De Cymru a Dyfed Powys i gaffael Gwasanaeth Oedolyn Priodol ar gyfer ardal y tri Heddlu. Drwy weithredu dull comisiynu cydweithredol, yr uchelgais yw targedu adnoddau'n well a darparu cynnig integredig, gydgysylltiedig sy'n ceisio lleihau trosglwyddo gwasanaeth mewn modd tameidiog.

Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth Oedolyn Priodol ar gyfer oedolion agored i niwed (18 oed ac yn hŷn) a gedwir yn Nalfa'r Heddlu neu a holir fel unigolyn dan amheuaeth mewn ymchwiliad. Gallai hefyd fod achlysuron lle bydd angen i'r Heddluoedd gynnal cyfweliadau dioddefydd/tyst gydag oedolion agored i niwed gyda phroblemau iechyd meddwl sydd heb gefnogaeth arall.

**Argymhelliad:**

Argymhellir bod y contract ar gyfer darparu Oedolion Priodol yn cael ei ddyfarnu i Adferiad am gyfnod o dair (3) blynedd gyda hyd at ddau (2) gyfnod estyniad blynyddol.

Cyfanswm cost y ddarpariaeth dros gyfnod 3 blynedd yw £341,955.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn

**Dyddiad: 01/10/2024**